sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

# Starlink Internet Services Limited: Penderfyniad ar geisiadau am chwe thrwydded gorsaf ddaear porth nad yw'n ddaearsefydlog

Penderfyniad

**DATGANIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 10 Tachwedd 2022

# 1. Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniad ar geisiadau gan SpaceX ar gyfer trwyddedau telegraffiaeth ddi-wifr i weithredu chwe gorsaf ddaear porth lloeren ychwanegol yn y DU.**

Bwriad y gorsafoedd daear porth yw cysylltu â chytser Starlink SpaceX o loerenni orbit nad yw'n ddaearsefydlog (NGSO), gan ehangu gallu ei wasanaeth lloerenni presennol a gwella cysylltedd i ddinasyddion a defnyddwyr yn y DU. Mae SpaceX eisoes yn gweithredu tair gorsaf ddaear porth yn y DU, felly mae'r ceisiadau hyn yn codi'r nifer i naw.

### Yr hyn rydym wedi'i benderfynu - yn gryno

**Rydym wedi penderfynu rhoi chwe thrwydded newydd i SpaceX weithredu gorsafoedd daear porth yn y DU.**

Fe wnaethom nodi ein hasesiad gwreiddiol ar y ceisiadau SpaceX yn ein hymgynghoriad ym mis Mehefin 2022 pan nodwyd ein bwriad i roi pob un o'r chwe thrwydded. Yn unol â'n proses drwyddedu, ers hynny rydym wedi asesu ymatebion rhanddeiliaid ynghylch gallu'r gorsafoedd daear porth ychwanegol hyn i gydfodoli â deiliaid trwyddedau NGSO presennol ac yn y dyfodol ac ystyried y materion cystadleuaeth a godwyd wrth ymateb i'n hymgynghoriad.

Codwyd nifer o bryderon ychwanegol, megis cydfodoli â gwasanaethau daearsefydlog (GSO) a phryderon amgylcheddol, gan randdeiliaid ac rydym yn ymdrin â'r rhain yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Mae SpaceX hefyd wedi rhoi gwybodaeth ychwanegol i ni ynglŷn â'u cytser ail genhedlaeth a'u gallu i gydfodoli â rhwydweithiau GSO, yr ydym wedi'i chyhoeddi ochr yn ochr â'n Penderfyniad heddiw.

O ran cydfodoli, rydym yn parhau i gredu y gall y system SpaceX gydfodoli â systemau NGSO eraill.

O ran cystadleuaeth, rydym yn asesu bod y risgiau yn yr achos hwn yn isel: cytunodd rhanddeiliaid â'n hasesiad gwreiddiol fod safleoedd gorsaf ddaear porth amgen yn bodoli i eraill eu gweithredu, gan olygu na fydd naw gorsaf ddaear porth SpaceX yn rhwystro gweithredwyr NGSO yn y dyfodol rhag gosod gorsafoedd daear porth yn y DU. Cododd rhanddeiliaid rai pryderon cystadleuaeth ychwanegol hefyd ynghylch integreiddio fertigol a phryder ehangach ynghylch cynnydd mawr yn nifer y lloerenni SpaceX yn y gofod.

Rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd caniatáu'r trwyddedau hyn yn effeithio ar gystadleuaeth o ganlyniad i integreiddio fertigol SpaceX (h.y. y byddai'n effeithio ar fynediad trydydd partïon at wasanaethau lansio). Rydym hefyd wedi ystyried pryderon ehangach am gystadleuaeth a godwyd gan randdeiliaid wrth wneud y penderfyniad hwn, tra'n nodi y saif rhai o'r rhain y tu hwnt i awdurdodaeth Ofcom.

**Mae ein penderfyniad yn galluogi SpaceX i weithredu chwe gorsaf ddaear porth NGSO ychwanegol yn y DU i gynyddu capasiti ei wasanaethau band eang lloeren uniongyrchol-i-ddefnyddwyr. Byddwn yn awr yn bwrw ymlaen i roi trwyddedau newydd i SpaceX, yn amodol ar dalu ffi'r drwydded. Bydd copïau o'r trwyddedau yn cael eu cyhoeddi yn adran "Trwyddedau presennol" ein gwefan.**

1.1 Ym mis Rhagfyr 2021 bu i ni nodi ein proses trwyddedu NGSO newydd, a ddyluniwyd i annog mwy o gydweithrediad rhwng deiliaid trwydded NGSO, gwella ein gallu i ymyrryd os ceir ymyriant niweidiol a sicrhau gwell tryloywder drwy broses ymgynghori fer.

1.2 Ym mis Mai 2022 bu i ni dderbyn ceisiadau gan Starlink Internet Services Limited ("Starlink") - un o is-gwmnïau SpaceX - ar gyfer chwe thrwydded gorsaf ddaear NGSO (porth) (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel trwydded Porth NGSO)[1].

1.3 Mae SpaceX, trwy ei is-gwmni Starlink, eisoes wedi'i awdurdodi i weithredu terfynellau o dan drwydded Rhwydwaith Gorsafoedd Daear (ESN). Ar hyn o bryd mae tair gorsaf ddaear porth NGSO wedi'u trwyddedu i gysylltu lloerenni'r system Starlink â rhwydweithiau daearol. Delir y trwyddedau porth NGSO hyn gan Arqiva, Goonhilly, a Starlink.

1.4 Ym mis Mehefin 2022 bu i ni gyhoeddi ymgynghoriad (yr "**ymgynghoriad Starlink**"), a fu'n nodi ein hasesiad cychwynnol o'r ceisiadau trwydded, gan gynnwys y materion cydfodoli a chystadlu a ystyriwyd.

1.5 Fe wnaethom gymryd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a deunydd ychwanegol a ddarparwyd gan SpaceX i ystyriaeth wrth ddod i'n penderfyniad i roi'r trwyddedau.

[1] Y diffiniad ITU ar gyfer porth yw "gorsaf ddaear porth”.